


Cymraeg - hwyl, gŵyl a gwaith



ShwmaeSumae?



Rydyn ni eisiau dathlu Diwrnod ShwmaeSumae

Lle: yn yr ysgol.

Pryd: Hydref 15

Beth ydy Diwrnod ShwmaeSumae?

- Diwrnod i ddweud "Shwmae" neu "Sumae"
- Diwrnod i siarad Cymraeg
- Diwrnod i fwynhau yn Gymraeg

Diwrnod ShwmaeSumae 2013-2015

Dyma rai syniadau o 2013-2015:

- Bore coffi
- Diwrnod Cymraeg
- Gwisgo bathodynnew ShwmaeSumae
- Sesiwn rapio
- Clwb siarad
- Cael disgownt o 10% mewn caffi os ydych chi'n gofyn am fwyd yn Gymraeg
- Gwneud fideo ShwmaeSumae



Am fwy o syniadau, ewch i:

https://www.facebook.com/hashtag/shwmaesumae?source=feed_text&story_id=10153659234343142

<https://www.youtube.com/watch?v=oFb2RHaasDA>

<http://www.shwmae.cymru/>

<http://www.shwmae.cymru/?lang=en>

Ein Diwrnod ShwmaeSumae ni:

Beth ydyn ni'n mynd i wneud?

Rydyn ni eisiau syniadau da os gwelwch yn dda.

Beth am siarad mewn grwpiau ac yna penderfynu fel dosbarth?

Cofiwch rydyn ni eisiau:

DIWRNOD O HWYL ... YN GYMRAEG!

Help

Geirfa	
Shwmae?	How are you? (South Wales)
Sumae?	How are you? (North Wales)
diwrnod	day
dweud	to say
rhai	some
syniadau	ideas
bathodynau	badges
os	if
penderfynu	to decide

Hwyl – yr Urdd (1)



gan: **SOFIA**

16 Mai 2016

BLOG SOFIA - TAITH I'R GOGLEDD

Dw i yng Ngwersyll yr Urdd, Glan-llyn - ac mae'n WYCH!

Daliais i'r bws am hanner awr wedi wyth y bore yma. Teithion ni i fyny o Aberaeron, drwy Aberystwyth a Machynlleth a stopion ni ym Machynlleth am hanner awr.

Mae'r gwersyll yn anhygoel - mae e ar lan llyn ac rydyn ni'n mynd i ganŵio y prynhawn yma. Mae llawer o bethau i wneud yma fel dringo, canŵio, caiacio a mwy. Dw i'n edrych ymlaen.

Rhaid i fi fynd! Dw i'n mynd i ysgrifennu mwy heno.

Dyma lincs i chi os ydych chi eisiau gweld ble dw i'n aros :

<http://www.urdd.cymru/cy/ein-gwersylloedd/glan-llyn/cyfleusterau/>

<http://www.urdd.cymru/cy/ein-gwersylloedd/glan-llyn/pethau-iw-wneud/gweithgareddau/>



gan: **BEN**

26 Mai 2016

BLOG BEN - TAITH I'R DE

Helo, bawb.

Dw i yng Ngwersyll yr Urdd, Caerdydd.

Daliais i'r bws am naw o'r gloch y bore yma. Teithion ni i lawr o Ruthun, drwy Amwythig, drwy Henffordd ac yna aethon ni i'r Pwll Mawr ar y ffordd. Roedd o'n anhygoel! Aethon ni i lawr ... i lawr ... i lawr ... o dan y ddaear i weld ble roedd y glowyr yn gweithio. Anhygoel! Edrychwch ar:

<http://www.amgueddfacymru.ac.uk/bigpit/>

Mae gwerysll yr Urdd yn wych. Mae e yng Nghaerdydd - yn y ddinas, wrth y bae - tu ôl i Ganolfan y Mileniwm.

Heno, rydyn ni'n mynd i sglefrio iâ yn y ddinas ac yfory rydyn ni'n mynd i weld Stadiwm y Principality ac rydyn ni'n mynd o gwmpas y Bae. Dw i'n edrych ymlaen.

Amser te - rhaid i mi fynd.

Darllenwch y blog yfory os ydych chi eisiau gwybod mwy!

Dyma lincs i chi os ydych chi eisiau gwybod mwy:

<http://www.urdd.cymru/cy/ein-gwersylloedd/caerdydd/cyfleusterau/>.

<http://www.urdd.cymru/cy/ein-gwersylloedd/caerdydd/pethau-iw-wneud/atyniadau/>

Help

	Geirfa
gwerysll	camp
dal	to catch

teithio	to travel
anhygoel	incredible, awesome
ar lan	on the shore of
llyn	lake
edrych ymlaen	to look forward
Amwythig	Shreswbury
Henffordd	Hereford
Pwll Mawr	Big Pit
pethau	things
y ddaear	the ground
glowyr	coalminers
dinas	city
bae	bay
sglefrio iâ	ice skating

Gweithio mewn salon cŵn



Beth ydy'ch enw chi?

Catherine Eira Davies ydw i.

O ble ydych chi'n dod

Dw i'n dod o Swindon.

Ble ydych chi'n byw rŵan?

Dw i'n byw yn Ninbych rŵan.

Beth ydy'ch gwaith chi?

Mae gen i salon cŵn. Enw'r busnes ydy Cat's Dogs.

Ydych chi'n mwynhau'r gwaith?

Ydw, dw i'n mwynhau'r gwaith yn fawr achos dw i'n caru anifeiliaid a dw i'n mwynhau gweithio efo fy nwylo.

Beth yn union ydych chi'n wneud?

Dw i'n golchi'r cŵn ac yn torri eu blew. Dw i'n torri ewinedd y cŵn ac yn glanhau eu clustiau nhw. Mae'r cŵn yn hapus iawn!

Oes gennych chi stori ddiddorol am y gwaith?

Oes. Mae gen i gi ac, unwaith, defnyddiais i siampŵ newydd ar fy nghi i. Ci gwyn oedd o – cyn y siampŵ – ond ar ôl y siampŵ, roedd o'n biws!

Ydy Cymraeg yn bwysig yn eich gwaith chi?

Ydy. Dw i'n siarad Cymraeg efo'r Cymry ac mae hyn yn bwysig. Mae rhai pobl yn dewis salon achos maen nhw eisiau siarad Cymraeg. Hefyd rhaid i mi siarad Cymraeg efo'r cŵn os ydyn nhw'n dod o gartrefi Cymraeg achos dydyn nhw ddim yn deall Saesneg. Dw i ddim yn dweud "Sit" neu "Stand" i gŵn

o gartrefi Cymraeg achos dydyn nhw ddim yn deall!

Diolch am siarad efo ni.

Croeso!



i Cofiwch:

Mae gen i ... = Mae ... gyda fi ... - I've got...

Mae gen i salon. = Mae salon gyda fi. - I've got a salon.

Mae gen i gi. = Mae ci gyda fi. - I've got a dog.

Oes gennych chi ...? = Oes ... gyda chi? - Have you got ...?

Oes gennych chi stori ddiddorol? = Oes stori ddiddorol gyda chi? - Have you got an interesting story?

Help

Geirfa

cŵn

dogs

caru	to love
fy nwylo	my hands
yn union	exactly
blew	hair (of an animal)
ewinedd	nails
glanhau	to clean
eu clustiau nhw	their ears
unwaith	once
cyn	before
ar ôl	after
pwysig	important
defnyddio	to use
efo	with the
Cymry	Welsh people
deall	to understand

O ba iaith mae'r geiriau yma'n dod?

salon

siampw

Carwyn yn y caffi

Rydych chi'n mynd i wyllo ffilm, ond yn gynta, dyma ychydig o help os ydych chi eisiau help.

Help

Geirfa	
gawn ni weld	let's see
cyw iâr	chicken
Gawn ni archebu?	May we order?
Beth amdanat ti?	What about you?
mefus	strawberries
golchi'r car	to wash the car



Trawsgrif

Person	Sgript
CCC:	Prynhawn da.
CCC:	Beth wyt ti eisiau, Aled?

Aled: Dw i ddim yn siŵr ... Gawn ni weld ...

Sosejis ...

Pizzas ...

Pei ...

Pysgod ...

Cawl ...

Salad ...

Mmm?

CCC: Dw i eisiau'r sosejis dw i'n meddwl – gyda ... pys a ... tatws.

Aled: A dw i eisiau'r salad cyw iâr, dw i'n meddwl.

CCC: Ble mae hi?

Aled: Dw i ddim yn gwybod.

CCC: Esgusodwch fi ...

CCC: Helo ... gawn ni archebu os gwelwch yn dda?

Gweinyddes: Alright! Alright!

Gweinyddes: Ie?

CCC: Ga i sosejis ... pys a ...
... tatws ... os gwelwch yn dda ...
... a moron.:

Gweinyddes: Moron?!?!?! Hy!

Aled: Ga i ... salad cyw iâr ... os gwelwch yn dda?

Aled: Iawn?

CCC: Diolch.

CCC: Beth ydy hwn? .

Gweinyddes: Sausages, peas ... tattoos...?

CCC: Beth?!?!?

Gweinyddes: Sausages, peas ... tattoos...?

CCC: Beth?!?!?! ... a ... beth am y moron?

Aled: Beth ydy hwn?

Gweinyddes: Salad ... hufen iâ.

Aled: Salad a ... hufen iâ? Na, na - Salad a ... cyw iâr – dim hufen iâ.

CCC: Bobl bach?!?!?

CCC: O, wel!

Gweinyddes: Pudding?

CCC: Wyt ti eisiau pwdin, Aled?

Aled: O, ydw, os gwelwch yn dda. Beth amdanat ti?

CCC: Dw i eisiau pwdin hefyd.

Aled: Dw i eisiau ...
cacen siocled a ... mefus.

Gweinyddes: Mavis? Na – Manon.

Aled: Cacen siocled a ... mefus.

Gweinyddes: Na – Manon.

Aled: O, iawn ... reit ... wel ... beth amdanat ti, Carwyn?

CCC: Sponge – os gwelwch yn dda.

Aled: Beth ydy hwn?

Gweinyddes: Chocolate.

Aled: Na, na, dw i eisiau cacen siocled a mefus.

Gweinyddes: Mavis?!? Na – Manon.

CCC: A beth ydy hwn?

Gweinyddes: Sponge.

CCC: Dw i ddim eisiau golchi'r car. Dw i eisiau **bwyta** sponge.

Aled: Mawredd mawr!

CCC: Dim ots.

Gweinyddes: Coffee?

CCC: Coffi?!?!?! Dim Diolch! Y bil os gwelwch yn dda.

Gweinyddes: O, Bill! Hello Bill – Manon.

CCC: Na, na – DW ... I ... EISIAU'R ... BIL ...

Aled: ... os gwelwch yn dda.

Gweinyddes: The bill, Bil.

CCC: FAINT?!?!?!?

Hwyl – yr Urdd (2)

Beth ydy'ch enw chi?

Awel Haf Roberts ydw i.

Faint ydy'ch oed chi?

Dw i'n 17 oed.

I ba ysgol ydych chi'n mynd?

I Ysgol Uwchradd Glan Clwyd

Beth ydy'ch hobiau chi?

Cerddoriaeth, gwleidyddiaeth a rhaglenni teledu 'realiti' ydy fy hobiau i.

Beth ydych chi'n wneud yn yr Urdd?

Dw i'n cystadlu mewn eisteddfodau; es i ar daith yr Urdd i Alton Towers ym Mlwyddyn 8 ac ym mis Hydref 2015, perfformiais i yn *Les Misérables* efo Cwmni Theatr Ieuencid yr Urdd. Mae'r Cwmni'n helpu pobl ifanc i berfformio yn Gymraeg.

Ble yng Nghaerdydd oedd y perfformiad?

Yng Nghanolfan y Mileniwm.

Sut oedd perfformio yng Nghanolfan y Mileniwm?

Brawychus, cyffrous ac anhygoel!

Oedd rhaid ymarfer llawer cyn y perfformiad?

Oedd. Roedden ni'n aros yng Nghanolfan yr Urdd yng Nghaerdydd, drws nesa i Ganolfan y Mileniwm. Roedden ni'n ymarfer o tua hanner awr wedi wyth y bore tan bump neu chwech o'r gloch bob dydd.

Sut oeddech chi'n teimlo ar y noson gyntaf?

Wedi blino achos yr ymarferion. Roeddwn i'n nerfus hefyd achos roedd y Ganolfan yn llawn ond roeddwn i'n gyffrous iawn iawn hefyd.

Aethoch chi i'r West End yn Llundain i berfformio hefyd?

Do, daeth Sir Cameron Mackintosh i weld un o'r ymarferion a gofynnodd o i ni fynd i berfformio mewn cyngerdd yn Theatr y Frenhines yn Llundain – profiad arbennig iawn!

Beth oedd y profiad gorau?

Roedd perfformio yng Nghanolfan y Mileniwm gyda'r Urdd yn brofiad arbennig iawn! Roedd o'n hwyl – yn llawer o hwyl – a dw i wedi gwneud llawer o ffrindiau newydd.









Help

Geirfa

gwleidyddiaeth	politics
cystadlu	to compete
cwmni	company
ieuentid	youth
brawychus	frightening
ymarfer	to rehearse
ymarferion	rehearsals
llawn	full
aethoch chi	you went

cyngerdd

concert

profiad

experience

Gweithio ar drac beicio

Rydych chi'n mynd i wyllo ffilm, ond yn gynta, dyma ychydig o help os ydych chi eisiau help.

Help

Geirfa	
cyflwynydd	presenter
canolfan	centre
cyfarfod â = cwrdd â	to meet
dangos	to show
pethau	things
byd natur	nature, wildlife
cynllunio	to design



Trawsgrif

Person	Sgript
Cyflwynydd:	Helo 'na. Croeso i raglen arall o "Gwaith". Heddiw, dw i'n siarad â Rhys.
Cyflwynydd:	Beth ydy'ch gwaith chi?
Rhys:	Dw i'n gweithio mewn canolfan beicio mynydd.
Cyflwynydd:	Ydych chi'n mwynhau'r gwaith?

Rhys: Ydw, mae'n hwyl ... ac mae'n gyffrous achos dw i'n hoffi gweithio tu allan a dw i'n hoffi cyfarfod â phobl.

Cyflwynydd: Beth ydych chi'n wneud yn y gwaith?

Rhys: Dw i'n siarad â'r bobl ...

Cyflwynydd: Yn Gymraeg neu yn Saesneg?

Rhys: Yn Gymraeg ac yn Saesneg ... Dw i'n helpu pobl gyda'u beiciau ...

Cyflwynydd: Ydych chi'n mynd allan i feicio?

Rhys: Ydw, dw i'n beicio gyda grwpiau ...
.. a dw i'n dangos pethau diddorol iddyn nhw.

Rhys: Dw i'n siarad am fyd natur weithiau. Dw i'n siarad gyda grwpiau Cymraeg a Saesneg.

Cyflwynydd: Rydych chi'n gweithio tu allan, felly.

Rhys: Ydw, ond dw i'n gweithio yn y swyddfa hefyd.

Cyflwynydd: O? Beth ydych chi'n wneud?

Rhys: Dw i'n ateb y ffôn – yn Gymraeg a Saesneg.
Dw i'n gwneud taflenni am y ganolfan beicio mynydd

Cyflwynydd: Yn Gymraeg neu Saesneg?

Rhys: Yn Gymraeg a Saesneg. Rhaid cael taflenni Cymraeg a Saesneg achos mae rhai pobl yn hoffi darllen yn Gymraeg ac mae rhai pobl yn hoffi darllen yn Saesneg.

Cyflwynydd: Diddorol! Beth arall ydych chi'n wneud?

Rhys: Dw i'n helpu i gynllunio traciau newydd ...

Cyflwynydd: Cynllunio traciau newydd? Bobl bach! Cyffrous!

Rhys: Ydy – mae'n gyffrous iawn. Dw i'n hoffi cynllunio traciau newydd.

Cyflwynydd: Oes caffi yn y ganolfan?

Rhys: Oes ... ac weithiau ... dw i'n helpu yn y caffi hefyd
- os ydyn ni'n brysur. Mae'r bwyd yn dda iawn
yma.
Beth am goffi bach nawr?

Cyflwynydd: Syniad da. Hwyl fawr, bawb.

DJ o Gymru

“Mae Cymraeg yn bwysig i fi,” meddai Huw Stephens.

Proffil



Enw: Huw Stephens

Byw: Llundain

Dod o: Caerdydd

Ysgol: Ysgol Glantaf

Gwaith: Troellwr: Radio 1, BBC Radio Cymru, BBC a Channel 4, gŵyl Glastonbury, gigs.

Cyflwyno ar S4C weithiau.

Gigs

Pan oedd Huw yn 15 oed, roedd e'n mynd i gigs yng Nghaerdydd ac yn yr Eisteddfod. Clywodd e lawer o fandiau Cymraeg a bandiau o Gymru fel Catatonia, Super Furry Animals, y Manic Street Preachers a'r Stereophonics. Roedd e wrth ei fodd. “Dw i'n lwcus. Achos dw i'n gallu siarad dwy iaith, dw i'n gallu mwynhau cerddoriaeth mewn dwy iaith,” meddai.

Dechrau gweithio

Pan oedd e'n ifanc, dechreuodd Huw weithio ar fore dydd Sadwrn. Roedd e'n ateb y ffôn yn y BBC.

Yna, dechreuodd e weithio ar radio ysbyty yng Nghaerdydd.

Yna, dechreuodd e weithio ar Radio 1 – roedd gallu siarad dwy iaith yn help i gael y gwaith.



Agor drysau

"Mae'r iaith Gymraeg yn agor drysau i chi," meddai Huw.

"Dw i'n teimlo'n drist pan mae pobl yn dweud 'Dydy fy Nghymraeg i ddim yn ddigon da.' Mae'ch Cymraeg chi'n ddigon da - wrth gwrs. Jyst triwch! Defnyddiwch eiriau Saesneg os dydych chi ddim yn gwybod y geiriau Cymraeg!

"I fi, mae'r iaith Gymraeg yn bwysig iawn."

Ydych chi eisiau darllen mwy? Ewch i: <http://cymraeg.llyw.cymru/More/myexperience/Enjoy/?lang=en>

Help

Geirfa

meddai	said
troellwr	DJ
gŵyl	festival
cyflwyno	to present
wrth ei fodd	delighted
gallu	can
pan	when
ifanc	young
ysbyty	hospital
drysau	doors
digon da	good enough
geiriau	words

Huw Stephens gan Neil Thompson; fe'u defnyddir o dan CC BY

Dewch i fwynhau

Mae mentrau iaith ar draws Cymru. Cliciwch yma i weld ble maen nhw.

<http://www.mentrauiaith.cymru/dod-o-hyd-i-fenter/>

Beth maen nhw'n wneud?

Edrychwch ar y posteri yma.





Sesiwn nofio i'r teulu

Dewch i nofio a siarad Cymraeg yn y pwll nofio bob nos Fawrth o chwech o'r gloch tan hanner awr wedi saith. Yna, os ydych chi eisiau, beth am gael bwyd blasus yn y caffi?

Eisteddfod "wahanol"

Mawrth 1 yn Neuadd y Dref

Dewch i gael amser gwych yn:

- garglo
- gwneud yr haca mewn gwisg ffansi
- a mwy!



Coginio yn Gymraeg – Hwyl i'r teulu

Dewch i ddysgu sut i goginio bwyd blasus o India.

Ystafell B34 yn yr ysgol Uwchradd, Medi 30



Dydd Owain Glyndŵr

16 Medi am 2.00 y.p.



Roedd Owain Glyndŵr yn dywysog Cymru.
Roedd e'n ymladd yn erbyn y Saeson yng Nghymru.
I ddysgu mwy, dewch i'r seremoni yn y castell.

Yma i helpu

Ydych chi eisiau help gyda'r iaith Gymraeg yn eich busnes?

Rydyn ni'n gallu dod allan i siarad â chi ac i roi cyngor i chi ar sut i ddefnyddio mwy o Gymraeg yn eich busnes.



Ffoniwch ni.

Cystadleuaeth Capsiwn a Llun

Ydych chi eisiau ennill £50?



Beth am dynnu llun ac ysgrifennu capsiwn - yn Gymraeg wrth gwrs!
Anfonwch y llun a'r capsiwn aton ni.



Sesiwn nofio i'r teulu

Dewch i nofio a siarad Cymraeg yn y pwll nofio bob nos Fawrth o chwech o'r gloch tan hanner awr wedi saith. Yna, os ydych chi eisiau, beth am gael bwyd blasus yn y cafffi?

Eisteddfod "wahanol"

Mawrth 1 yn Neuadd y Dref

Dewch i gael amser gwych yn:

- garglo
- gwneud yr haca mewn gwisg ffansi
- a mwy!



Coginio yn Gymraeg – Hwyl i'r teulu

Dewch i ddysgu sut i goginio bwyd blasus o India.

Ystafell B34 yn yr ysgol Uwchradd, Medi 30



Help

Geirfa

menter iaith	language venture
mentrau iaith	language ventures
garglo	to gargle
haca	hacka
tywysog	prince
ymladd	to fight
yn erbyn	against
Saeson	English
cyngor	advice

capsiwn

caption

Hwyl – yr Urdd (3)

Mae'r Urdd yn wych.

Pam?

Achos mae'n bosib cael hwyl – llawer hwyl – yn Gymraeg. Edrychwch ar y sleidiau yma:






















































Ewch i Dasg 1.

Y dechrau

Pwy: Dechreuodd Syr Ifan ab Owen Edwards yr Urdd.

Pryd: Yn 1922.

Pam: Roedd e'n poeni am yr iaith Gymraeg. Roedd e'n poeni bod plant a phobl ifanc Cymru yn chwarae yn Saesneg ac yn darllen Saesneg – dim Cymraeg. Roedd e eisiau mudiad Cymraeg i blant a phobl ifanc Cymru.

Beth wedyn:

Erbyn diwedd 1923, roedd tua thair mil (3,000) o aelodau yn yr Urdd

Erbyn diwedd 1927, roedd dros bum mil (5,000) o aelodau.








Erbyn heddiw, mae dros bum deg mil (50,000) o aelodau.

Heddiw, mae'r Urdd yn trefnu teithiau ... yn cynnal cystadlaethau ... yn cynnal eisteddfodau a gigs ... yn helpu pobl i fwynhau yn Gymraeg.

Help

Geirfa	
poeni	to worry
mudiad	movement
trefnu	to organize, arrange
cynnal	to hold (an event)

Gŵyl gerddoriaeth grêt!

<p>Jordan:</p> 	<p>Es i i Tafwyl yn yr haf ac roedd e'n wych. Nawr, dw i eisiau clywed mwy o fandiau Cymraeg.</p>
<p>Rob:</p> 	<p>Tafwyl? Beth ydy Tafwyl?</p>
<p>Jordan:</p> 	<p>Gŵyl Gymraeg yng Nghastell Caerdydd.</p>
<p>Rob:</p> 	<p>Gŵyl Gymraeg?!?!?! Diflas dw i'n meddwl!</p>
<p>Jordan:</p> 	<p>Dim o gwbl.</p>
<p>Rob:</p> 	<p>Oedd "Welsh cakes" yno?</p>
<p>Jordan:</p> 	<p>Welais i ddim pice ar y maen.</p>
<p>Rob:</p>	<p>Oedd cawl cennin yno?</p>



Jordan:

Welais i ddim cawl cennin.



Rob:

Beth am gennin Pedr?



Jordan:

Welais i ddim cennin Pedr.



Rob:

Beth oedd yno 'te?



Jordan:

Wel, roedd llawer o fandiau Cymraeg yn perfformio – roedden nhw'n wych.



Rob:

Bandiau Cymraeg?



Jordan:









Bandiau Cymraeg!



Alys:

Mae llawer o fandiau Cymraeg gwych o gwmpas.



<p>Rob:</p> 	<p>Er enghraifft?</p>
<p>Alys:</p> 	<p>Dw i'n hoffi Anelog.</p>
<p>Rob:</p> 	<p>Pwy?</p>
<p>Alys:</p> 	<p>Anelog. Os wyt ti eisiau clywed Anelog yn canu, clicia yma: https://soundcloud.com/anelog</p> <p>Gwranda ar y gân "Siabod". Mae'r gerddoriaeth yn ddiddorol – mae'r sŵn yn wahanol – mae'r offerynnau'n wych ac maen nhw'n canu'n dda hefyd.</p>
<p>Chris:</p> 	<p>Mae'n well gyda fi fand o'r enw Y Bandana. Os wyt ti eisiau clywed Y Bandana'n canu, clicia yma: https://www.youtube.com/watch?v=PRoOwxWstVY</p> <p>Mae'r geiriau ar y sgrin hefyd felly mae hynny'n help mawr. Maen nhw'n canu'n ardderchog.</p>
<p>Khalid:</p> 	<p>Fy hoff gân i ydy "Coffi Du" gan Gwibdaith Hen Frân. Clicia yma: https://www.youtube.com/watch?v=N5ZHRYVVGok</p> <p>i glywed y gân ac i weld y geiriau – ac i ganu gyda nhw.</p>
<p>Rob:</p> 	<p>Canu gyda nhw – yn Gymraeg? Dw i ddim yn meddwl.</p>
<p>Khalid:</p> 	<p>Pam lai? Mae bandiau Cymraeg gwych o gwmpas heddiw.</p>
<p>Jordan:</p>	<p>Dw i'n cytuno – mae bandiau ardderchog yn canu yn Gymraeg. Os wyt ti eisiau clywed mwy, beth am wrando ar raglen C2 ar Radio Cymru.</p>



Rob:

lawn!



Help

Geirfa

gŵyl	festival
dim o gwbl	not at all
pice ar y maen = cacennau cri	Welsh cakes
o gwmpas	around
er enghraifft	for example
gwahanol	different
offerynnau	instruments
hynny	that
Pam lai?	Why not?


Beth ydy'r geiriau Cymraeg?

bands

perform

i Cofiwch:

Mae'n well gyda fi ... = Mae'n well gen i ... - I prefer ...







Gweithio ar y teledu



Rydych chi'n mynd i wrando ar ddau berson yn siarad. Dyma rai geiriau i'ch helpu chi os ydych chi eisiau help.

Help

Geirfa	
cyflwynydd	presenter
gwraig	wife
fy ngwraig	my wife
cyflwyno	to present
rhaglen wyliau	holiday programme

Trawsgrif

Iwan: Mae llawer o bobl yn dringo Everest bob blwyddyn ... ac mae rhai pobl yn gadael sbwriel yno.

Person	Sgript
Cyflwynydd:	Croeso i'r rhaglen Gwaith . Heddiw dw i'n siarad gyda dyn o'r teledu. Pwy ydy o? Gawn ni weld... Beth ydy'ch enw chi?
Rhodri Owen:	Rhodri Owen ydw i.
Cyflwynydd:	Ble ydych chi'n byw?
Rhodri Owen:	Dw i'n byw yn Y Bont-faen yn Bro Morgannwg.
Cyflwynydd:	Oes teulu gyda chi?
Rhodri Owen:	Oes, ... mae gwraig a mab gyda fi ... Mae Lucy, fy ngwraig i, yn gweithio ar y teledu ... Mae hi'n darllen y newyddion ar BBC Wales Today ... ac mae hi'n gweithio ar y rhaglen X Ray .
Cyflwynydd:	Beth ydy'ch gwaith chi?
Rhodri Owen:	Dw i'n gweithio ar y teledu ... Dw i'n cyflwyno Prynhawn Da ... ar S4C. Mae Prynhawn Da ar y teledu brynhawn dydd Llun ... brynhawn dydd Mawrth ... brynhawn dydd Mercher ... brynhawn dydd Iau ... a phrynhawn dydd Gwener am ddau o'r gloch.
Cyflwynydd:	Ydych chi'n gweithio ar raglenni eraill?
Rhodri Owen:	Ydw, dw hefyd yn cyflwyno rhaglen Heno ar S4C.
Cyflwynydd:	Rydych chi'n gweithio yn Gymraeg ac yn Saesneg felly.
Rhodri Owen:	Ydw. ... Dw i'n siarad Cymraeg ... felly dw i'n gallu gweithio ar raglenni Cymraeg a Saesneg.
Cyflwynydd:	Sut dechreuoch chi?
Rhodri Owen:	Nes i dechrau yn byd teledu yn actio mewn opera sebon ar S4C blynyddoedd maeth yn ôl or enw Dinas.
Cyflwynydd:	Beth am y teledu – sut dechreuoch chi?

Rhodri Owen: Dechreuais i ar S4C yn **un naw naw tri** yn cyflwyno rhagleni plant.

Cyflwynydd: Beth wedyn?

Rhodri Owen: Ar ôl **chwe** blynedd o weithio ar S4C, es i i Lundain i fyw a dechreuais i weithio ar CBBC –... yn Saesneg. Dw i wedi cyflwyno **llawer** o raglenni Saesneg ... fel rhaglen wyliau ar BBC1 o'r enw "Holiday" – ... a rhaglen wyliau ar ITV - "Wish You Were Here...?"

Cyflwynydd: Rydych chi wedi ysgrifennu llyfr Cymraeg.

Rhodri Owen: Ydw –... llyfr i blant am fwyd iach. ... Y teitl ydy "Bwyd bwyd bwyd" Mae bwyta'n iach yn bwysig iawn.

Cyflwynydd: Diolch am siarad gyda fi.

Rhodri Owen: Croeso.

Dyddiadur Catrin

30 Mai, 1980

Dw i'n teimlo'n ddiflas iawn, iawn. Dw i mor siomedig!

Dw i'n hoffi gwyllo rhaglenni Cymraeg ar y teledu ond does dim sianel Gymraeg yng Nghymru. Mae rhai rhaglenni ar BBC 1 ac mae rhai rhaglenni ar ITV. Fel arfer, mae'r rhaglenni Cymraeg dw i'n hoffi ar y teledu yn hwyr yn y nos a dw i yn y gwely.

Mae llawer o bobl eisiau sianel Gymraeg. Mae rhai pobl yn protestio.

Roedd y llywodraeth yn Llundain yn mynd i roi sianel Gymraeg i ni ond newidion nhw eu meddwl yn 1979. Nawr, mae un dyn - Gwynfor Evans - yn mynd i wneud rhywbeth anhygoel!

Mae Gwynfor Evans yn mynd i lwgu. Dydy e ddim yn mynd i fwyta os dydy llywodraeth Llundain ddim yn rhoi sianel Gymraeg i ni. Mae e'n mynd i lwgu i farwolaeth os oes angen!

Bobl bach! Dw i'n teimlo'n ddiflas.

Help

Geirfa	
siomedig	disappointed
hwyr	late
llywodraeth	government
newid	to change
meddwl	mind

rhywbeth	something
----------	-----------

llwgu	to starve
-------	-----------

marwolaeth	death
------------	-------

01 Tachwedd, 1982

Dw i'n teimlo'n hapus iawn, iawn achos heno am chwech o'r gloch dechreuodd S4C – sianel deledu Gymraeg – o'r diwedd! Nawr, mae pedair sianel ar y teledu – ddim tair.

Am chwech o'r gloch, daeth Siwperterd ar y sgrin – cartŵn newydd yn Gymraeg am dedi arbennig iawn. Yna, roedd y newyddion ac roedd y newyddion yn dda iawn – sianel Gymraeg newydd!

Bydd 20 awr o raglenni Cymraeg ar y sianel bob wythnos – byddwn ni'n cael dwy opera sebon – **Coleg a Pobl y Cwm** – dydy **Pobl y Cwm** ddim yn newydd – mae hi wedi bod ar BBC ers 1974 ond rŵan mae hi ar S4C! Rydyn ni'n mynd i gael pob math o raglenni – rhaglenni newyddion, rhaglenni dogfen, dramâu, ffilmiau, rhaglenni plant, rhaglenni cwis, rhaglenni comedi a chwaraeon a rhaglenni ffermio – a mwy. Dw i'n methu aros. Dw i mor hapus!

Mae pawb yn hapus heno. Mae'r Cymry Cymraeg yn hapus i gael sianel deledu Gymraeg ac mae'r bobl ddi-Gymraeg yn hapus achos does dim rhaglenni Cymraeg ar y sianeli eraill nawr.

Nos da. Dw i'n edrych ymlaen at raglenni Cymraeg nos yfory.

Help

	Geirfa
--	--------

o'r diwedd	at last
------------	---------

awr	hour
-----	------

dogfen	documentary
--------	-------------

Cymry	Welsh people
di-Gymraeg	non-Welsh speaking
methu aros	can't wait
edrych ymlaen	to look forward